# Canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Comisiynydd y Gymraeg

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

e-bost/rhif ffôn: post@cyg-wlc.cymru

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 31 Mawrth 2026 i:

Llwybrau Dysgu 16-18
Yr Is-adran Llwybrau Dysgu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: Dysgu.16-18.Learning@llyw.cymru

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1**
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y canllawiau i Medr ar gwricwla lleol i ddysgwyr 16 i 18 ('canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18') yn nodi rôl Medr wrth lunio cwricwla lleol yn glir?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol)

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | X | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Yng nghyd-destun dysgu Cymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, cytunwn bod y canllawiau yn nodi rôl Medr wrth lunio cwricwla lleol yn glir. Bydd gweddill ein hymateb yn canolbwyntio ar y canllawiau yng nghyd-destun y Gymraeg. |

**Cwestiwn 2**
I ba raddau rydych chi'n cytuno y bydd y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer dysgu 16 i 18 sydd wedi'i nodi ynddynt?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol)

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | X | |

**Sylwadau ategol**

Yn rhan o'r weledigaeth, nodir y dylai'r cwricwla lleol sy'n cyflwyno dysgu 16-18 gynllunio ar gyfer dysgu Cymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, cynnig mwy o gyfleoedd i wneud hynny ac annog y galw. Cefnogwn yr argymhelliad hwn, gan nodi'r angen i fod yn weithredol wrth greu a meithrin y galw. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, bydd angen goresgyn yr heriau canlynol yng nghyd-destun addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16:

- diffyg dilyniant o'r sector statudol i'r sector trydyddol, gyda chwymp enfawr yn nifer y dysgwyr sy'n derbyn cyfran sylweddol o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- diffyg gallu gan ysgolion i ddarparu cwricwlwm eang a deniadol yn y chweched dosbarth
- diffyg cymwysterau, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol
- diffyg hygyrchedd addysg cyfrwng Cymraeg ac anawsterau cludiant i ddysgwyr
- diffyg cydweithio effeithiol rhwng darparwyr
- yr angen i feithrin sgiliau Cymraeg dysgwyr fel mantais ar gyfer y farchnad lafur yng Nghymru

Trafodwn hyn ymhellach yn ein hymatebion i gwestiynau 4 a 9 isod.

**Cwestiwn 3**
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 yn eich helpu i ddeall y ffactorau a'r blaenoriaethau y dylai Medr eu hystyried wrth weithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau) i lunio cwricwla lleol?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol)

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | X | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Cyfeirir at hybu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, fel un o ddyletswyddau strategol Medr sy'n arbennig o berthnasol i'w rôl yn llunio cwricwla lleol 16-18. Cefnogwn y pwyslais y mae'r canllawiau yn ei roi ar y ddyletswydd hon. Tynnwn sylw eto at bwysigrwydd rôl weithredol Medr yn creu ac yn meithrin y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. |

**Cwestiwn 4**
I ba raddau rydych chi'n cytuno y bydd yr hyn a ddisgwylir gan Medr a sefydliadau eraill yn y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 yn arwain at lunio cwricwla lleol sy'n cynnig dewis eang o gymwysterau i ddysgwyr, a fydd yn eu galluogi i symud ymlaen i'r camau nesaf a ddewiswyd ganddynt o ran addysg neu gyflogaeth?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol)

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | X | | |

**Sylwadau ategol**

Er mwyn sicrhau bod y canllawiau yn arwain at lunio cwricwla lleol sy'n cynnig dewis eang o gymwysterau i ddysgwyr, bydd angen ystyried y materion a godwyd yn ein hymateb i gwestiwn 2 uchod.

Ar hyn o bryd, nid oes gan ddysgwyr gyfleoedd digonol na chyfartal i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg drydyddol. Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn chweched dosbarth yn llawer cryfach na'r hyn a gynigir gan fwyafrif helaeth y darparwyr addysg ôl-orfodol mewn colegau addysg bellach. Mae cyfran y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn colegau addysg bellach yn gyfyngedig iawn, ac yn sylweddol is na'r ganran sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn addysg statudol.

Fodd bynnag, mae darpariaeth chweched dosbarth yn gyffredinol, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn benodol, yn wynebu heriau cynyddol o ran cynaliadwyedd y ddarpariaeth a'r gallu i ddenu nifer digonol o ddisgyblion. Mae data yn amlygu bod gostyngiad mawr yn y niferoedd sy'n derbyn cyfran sylweddol o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg drydyddol o'i gymharu â'r sector statudol.

Yn benodol, mae darpariaeth cymwysterau a chyrsiau galwedigaethol yn parhau i fod yn faes o wendid sylweddol. Yn Saesneg yn unig y cynigir llawer o gymwysterau

galwedigaethol i ddysgwyr yng Nghymru, gan olygu nad oes gan ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yr un ystod nac amrywiaeth o ddewisiadau â'u cyfoedion yn y sector cyfrwng Saesneg. O ganlyniad, mae dysgwyr sy'n dymuno dilyn llwybrau galwedigaethol neu dechnegol yn aml yn gorfod newid iaith eu hastudiaethau, gan danseilio parhad eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn parhau i ddefnyddio'r iaith yn y byd gwaith.

Er bod datblygiadau polisi a rheoleiddio pwysig wedi'u cyflwyno yn ystod y blynyddoedd diwethaf – gan gynnwys gofynion rheoleiddio newydd ar argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg, a grantiau wedi'u targedu i gyrff dyfarnu er mwyn cefnogi datblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg – mae'r cynnydd gwirioneddol yn nifer ac yn ystod y cymwysterau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael wedi bod yn rhy araf i ymateb i'r galw presennol nac i ysgogi galw newydd. Mae'r bwlch rhwng uchelgais polisi a realiti'r ddarpariaeth ar lawr gwlad yn parhau i gyfyngu ar ddewisiadau dysgwyr ac ar hyfywedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16.

Heb gyflymu'r broses o ddatblygu a chyflwyno cymwysterau cyfrwng Cymraeg – yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol allweddol – mae risg y bydd y system addysg ôl-16 yn parhau i atgyfnerthu patrwm lle mae'r Gymraeg yn cael ei gweld yn gyfrwng llwybr academaidd cul, yn hytrach nac yn gyfrwng hyfyw ar draws ystod lawn o lwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Yn ogystal ag ehangu'r ddarpariaeth mewn colegau addysg bellach, mae angen atgyfnerthu'r ddarpariaeth gref sy'n bodoli mewn ysgolion ar hyn o bryd. Rhaid sicrhau bod gan ddysgwyr gyfleoedd i astudio cwricwlwm eang a deniadol drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyd a lled Cymru. Dylai hyn fod yn ffocws i'r cwricwla lleol, gan baratoi dysgwyr ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol, mewn cyd-destun lle mae galw cynyddol am weithlu dwyieithog.

Erbyn hyn mae tua 135 o sefydliadau ar draws Cymru, gan gynnwys prif gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r gyfundrefn safonau, ynghyd â chynnydd mewn ymwybyddiaeth gyhoeddus, wedi cynhyrchu cynnydd sylweddol yn y galw am staff sy'n gallu gweithio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn wir mewn perthynas â'r sector preifat lle mae nifer cynyddol o gwmnïau yn cydnabod gwerth y Gymraeg fel sgil pwysig. O ystyried hyn, mae'n hanfodol bod y system addysg a hyfforddiant yn cynhyrchu digon o unigolion dwyieithog i lenwi'r swyddi hyn. Fodd bynnag, mae bwlch rhwng y galw hwn a gallu'r sector i'w ddiwallu.

Un flaenoriaeth allweddol yw datblygu darpariaeth Gymraeg ym meysydd strategol yr economi lle mae prinder sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. Er enghraifft, ceir diffyg gweithlu dwyieithog mewn sectorau fel iechyd a gofal, addysg blynyddoedd cynnar, addysg statudol a thrydyddol, gwasanaethau cyhoeddus, technoleg a busnes – meysydd lle mae galw uchel am y Gymraeg oherwydd natur y gwasanaethau i'r cyhoedd neu werth ychwanegol y Gymraeg yn fasnachol. Dylid hefyd ystyried sut i helpu pobl ifanc i fanteisio ar y swyddi a allai ddeillio o drawsnewidiad yr economi werdd, yn enwedig yn ardaloedd gorllewinol Cymru sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg a llawer o adnoddau naturiol perthnasol. Cyfeirir at y potensial hwn mewn papur safbwynt ac adroddiad gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Gan bod llawer o'r ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg hefyd yn ardaloedd lle mae potensial ar gyfer datblygiadau economaidd sero net, mae ystyriaethau penodol o ran anghenion sgiliau yn yr ardaloedd hyn. Mae'n hollbwysig sicrhau cwricwla lleol sy'n deall anghenion y farchnad lafur ac yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen, gan wneud hynny yn ddwyieithog.

**Cwestiwn 5**

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r polisi arfaethedig yn y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 ar ddefnyddio cymwysterau TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru fel rhan o raglenni ôl-16?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol)

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | X | |

**Sylwadau ategol**

Cytunwn y dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr 16 i 18 oed nad ydynt wedi cyflawni llwyddiant lefel 2 yn y Gymraeg yn yr ysgol wneud hynny fel rhan o'u rhaglen ôl-16. Byddai hyn yn sicrhau cyfle teg iddynt ennill cymhwyster yn y Gymraeg a allai fod o fudd iddynt wrth ymuno â'r gweithlu dwyieithog yn y dyfodol.

**Cwestiwn 6**
I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r polisi arfaethedig yn y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 ar ddefnyddio cymwysterau sgiliau fel rhan o raglenni ôl-16, gan gynnwys Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch a chymwysterau'r Gyfres Sgiliau?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol)

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | X | |

**Sylwadau ategol**

Cytunwn y dylid rhoi cyfle i ddysgwyr 16-18 oed gwblhau cymwysterau sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 7**
Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y polisi a amlinellir yn y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 yn eu cael ar weithlu ysgolion a SABau, gan gynnwys unrhyw effaith y gallai ei chael ar lwythi gwaith.

**Sylwadau ategol**

Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod yr angen am gynnydd sylweddol yn y gweithlu addysg ôl-16 sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dangosodd ymchwil Comisiynydd y Gymraeg i brofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog bod diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai meysydd yn parhau i rwystro dysgwyr rhag astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn cynorthwyo ein holl ddysgwyr i gyrraedd eu potensial o safbwynt ieithyddol, dylid annog a chefnogi'r holl athrawon, cymorthyddion, darlithwyr ac aseswyr yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg gam wrth gam a defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol fel cyfrwng addysgu. Rydym hefyd wedi galw am ddatblygu'r gweithlu anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg. Mae diffyg staff arbenigol â'r sgiliau ieithyddol priodol yn her fawr yn y maes hwnnw. Dylai'r canllawiau fynd i'r afael â'r materion hyn.

**Cwestiwn 8**
Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y polisi a amlinellir yn y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 yn eu cael ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd dan anfantais a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010).

**Sylwadau ategol**

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn ddewis anoddach a mwy beichus i fwyafrif poblogaeth Cymru. Oherwydd bod llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mae dysgwyr, ar gyfartaledd, yn byw ymhellach o'r ddarpariaeth. Golyga hyn, mewn llawer o ardaloedd, bod mynychu addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn golygu gorfod teithio ymhellach, sydd hefyd yn debygol o fod â goblygiadau ariannol. Tra bod awdurdodau lleol yn gorfod darparu cludiant i addysg statudol (yn dibynnu ar drothwyon pellter penodol), darperir cludiant ôl-16 ar sail disgresiwn. Mae polisïau cludiant yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall, ond gwyddom nad yw nifer o awdurdodau lleol yn darparu cludiant am ddim i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Gwyddom am sawl enghraifft lle mae colegau addysg bellach yn cynnig cludiant am ddim i ddysgwyr, ond nid yw'r awdurdod lleol yn darparu cludiant i'r chweched dosbarth sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg. Yn aml, mae hyn yn cael effaith anghymesur ar ddysgwyr sy'n dymuno mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn arbennig ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig. Amlygir anghyfartaledd oherwydd pellteroedd teithio, a'i effaith ar gymunedau difreintiedig, yn adroddiad diweddaraf y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, *Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg*.

Yng nghyd-destun Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), mae tystiolaeth o'r sector addysg statudol yn dangos bod diffygion sylweddol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyd a lled Cymru. Mae hyn yn golygu nad yw siaradwyr Cymraeg yn aml yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, neu fel arall eu bod yn gorfod derbyn cefnogaeth ac addysg cyfrwng Saesneg. Mae'n debygol bod heriau tebyg yn bodoli yn y sector ôl-16 yn ogystal. Credwn y dylai'r adran ar ADY yn y canllawiau roi sylw i ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn benodol. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi sefydlu'r egwyddor y dylai'r gyfundrefn ADY yng Nghymru fod yn ddwyieithog, ac felly bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfartal â'r ddarpariaeth Saesneg.

**Cwestiwn 9**
Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Croesawn y sylw amlwg a roddir i'r Gymraeg yn y canllawiau hyn. Byddai cynnwys mwy o fanylder, fel a awgrymir gennym, yn gam cadarnhaol ymlaen o safbwynt y Gymraeg.

Nodwn yr anogaeth i Medr geisio helpu dysgwyr i allu astudio drwy gyfrwng y Gymraeg lle na chaiff cyfleoedd o'r fath eu darparu yn uniongyrchol, gan gynnwys opsiynau cyflwyno ar-lein a hybrid fel E-Sgol, a phartneriaethau cydweithredol. Gall astudio ar-lein gynnig datrys mewn sefyllfaoedd o'r math, ond dylid bod yn ofalus gan nad yw opsiynau ar-lein i astudio'r Gymraeg o anghenraid mor boblogaidd â gwersi wyneb yn wyneb. Mae athrawon Cymraeg wedi mynegi pryder am ddysgwyr yn penderfynu peidio ag astudio'r Gymraeg ar ôl i ddarpariaeth newid i wersi ar lein yn unig. Mae'r Comisiynydd wedi tynnu sylw at y broblem hon ac at anawsterau eraill, gan gynnwys amserlennu'r pwnc mewn ffordd sy'n ei wneud yn

anoddach neu'n llai tebygol y bydd dysgwyr yn ei ddewis, a pheidio â chynnig y pwnc o gwbl. Mae penderfyniadau fel y rhain yn tanseilio'r ymdrechion sydd ar waith i hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg fel pwnc.

Trafoda'r canllawiau y posibilrwydd y bydd angen i ddarparwyr asesu gwerth am arian a'r galw lleol am bynciau lle gallai nifer isel ddewis eu hastudio. Enghraifft benodol o hyn yw'r Gymraeg. Mae athrawon wedi rhybuddio bod sefyllfa'r Gymraeg fel pwnc ar ôl TGAU wedi bod yn fregus ers cryn amser a bod y sefyllfa yn gwaethygu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Safon Uwch Cymraeg a Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith. Dengys data StatsCymru bod 304 o ddysgwyr yn astudio Safon Uwch Cymraeg yn 2008/9 a 489 yn astudio Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith. Erbyn 2023/24 roedd y ffigyrau wedi gostwng i 207 yn astudio Cymraeg a 111 yn astudio Cymraeg Ail Iaith. Yn ôl data CBAC, rhwng 2015/16 a 2023/24 cwympodd nifer y canolfannau sy'n cynnig Safon Uwch Cymraeg o 48 i 45. Yn ystod yr un cyfnod, cwympodd nifer y canolfannau sy'n cynnig Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith o 71 i 55.

Cefnogwn y gofyniad yn y canllawiau i ystyried sicrhau y gall dysgwyr barhau â'r llwybrau y maent yn eu dewis, megis trwy gydweithio rhwng darparwyr, gan gynnwys dros ffiniau awdurdodau lleol. Mae'r Comisiynydd wedi galw am gynllunio a chydweithio ar lefel ranbarthol rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach i sicrhau fod darpariaeth ddigonol ar gael ac yn cael ei hyrwyddo er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Pwysleisiwn ei fod yn hanfodol fod y cynllunio strategol hwn yn digwydd er budd y Gymraeg. Rhaid cyllido cyrsiau Cymraeg heb fod angen dibynnu ar leiafswm o ddysgwyr i gyfiawnhau cynnal y cyrsiau hynny.

Nid yw llawer o siaradwyr Cymraeg rhugl yn parhau i dderbyn addysg drwy'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol. Er enghraifft, o'r 35,800 o siaradwyr Cymraeg rhugl oedd mewn addysg bellach yn 2023/24, roedd 20,550 ohonynt yn astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Rydym yn argymell yn gryf bod y canllawiau yn pwysleisio y dylai darparwyr sicrhau bod y Gymraeg yn ddewis hawdd a hygyrch i bob dysgwr. Dylai hyn fod yn wir hefyd am bynciau a chymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 10**

Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18 er mwyn:

- sicrhau eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

Mae heriau sylweddol gyda'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes addysg ôl-16. Yn y cyd-destun hwn, byddai modd cryfhau'r canllawiau drwy egluro rhai o'r prif heriau a'r rhwystrau y dylai'r cwricwla lleol eu cydnabod a mynd i'r afael â hwy. Mae angen i'r cwricwla lleol ystyried dilyniant ieithyddol, ehangder cwricwlwm, argaeledd cymwysterau ac anghenion y farchnad lafur o ran y Gymraeg er mwyn ceisio goresgyn yr anghyfartaledd rhwng y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn y sector ôl-16 yng Nghymru.

**Cwestiwn 11**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i

wneud hynny:

| |
|---|
| |

**Bod yn ddienw**
Gall ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu cyhoeddi. Bydd eich ymateb yn ddienw. Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch x yn y blwch.

| | |
|---|---|
| Rwy'n cytuno i'm henw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'm hymateb i'r ymgynghoriad hwn. | **X** |